@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

**Blwyddyn Newydd Dda**

Ar ddechrau 2024 hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl gymuned yr ysgol.




**Calendr Hanner Tymor**

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Sylwch fod diwrnod yr Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener y 9fed o Chwefror, sef diwrnod olaf yr hanner tymor hwn. Bydd y rhagbrofion yn digwydd ar ddechrau'r wythnos olaf.

Yn ystod y bythefnos gyntaf mi fyddwn ni'n dewis aelodau ar gyfer y Côr, Cân Actol, grwpiau dawnsio, Grŵp Llefaru, Ymgom ayyb. Mwy o wybodaeth i ddilyn.

**Carol yr Ŵyl**

Llongyfarchiadau i Gôr Blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol ar lwyddo i gipio gwobr Carol yr Ŵyl 2023.

Cyhoeddwyd mai ni oedd yr enillwyr ar raglen Carol yr Ŵyl ar S4C dros wyliau'r Nadolig.

Mae perfformiad yr ysgol ar gael ar Youtube i chi ei wylio:
https://youtu.be/hYRa65hK-cg?si=0QLD2i76_8gM0TJ7




CAROL YR ŴYL 2023: Ysgol Aberystwyth (1af)

**Y Gymraeg**

'Hanes yr Iaith Gymraeg' – dyma rannu dolen i fideo diddorol gan yr Athro Mererid Hopwood https://youtu.be/e39O5e-sEck

**Staffio**

Llongyfarchiadau i Miss Nia Wyn sydd wedi'i phenodi yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Bro Hyddgen. Bydd Miss Wyn yn cychwyn yn ei rôl newydd wedi gwyliau'r Pasg. Byddaf yn rhannu trefniadau dosbarth 1W ar gyfer tymor yr haf gyda'r rhieni yn fuan.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**

Sylwch fod dyddiadau pwysig Eisteddfodau'r Urdd wedi eu nodi ar waelod y Calendr Hanner Tymor.
Byddwn yn cynnwys dyddiadau y Nosweithiau Rhieni yma'n fuan.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**08/01/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

***Happy New Year***
*At the beginning of 2024 I would like to wish the whole school community a Happy New Year.*




***Half Term Calendar***
*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

*Please note that the day of the School Eisteddfod is on Friday the 9th of February, which is the last day of this half term. The prelims will take place at the beginning of the final week.*

*During the first couple of weeks we will be choosing members for the choir, Cân Actol, dance groups, recitation group, Ymgom etc. to compete in the Urdd Eisteddfod. More details to follow.*

***Carol yr Ŵyl***
*Congratulations to the school's Year 5 and 6 Choir for winning the 2023 Carol yr Ŵyl award.*

*It was announced that we were the winners on the Carol yr Ŵyl programme on S4C over the Christmas holidays.*

*The school's performance is available on Youtube for you to watch:*
*https://youtu.be/hYRa65hK-cg?si=0QLD2i76_8gM0TJ7*



CAROL YR ŴYL 2023: Ysgol Aberystwyth (1af)

***The Welsh language***
*'History of the Welsh Language' - here is a link to a video by Professor Mererid Hopwood https://youtu.be/e39O5e-sEck*

***Staffing***
*Congratulations to Miss Nia Wyn who has been appointed Assistant Headteacher at Ysgol Bro Hyddgen. Miss Wyn will start in her new role after the Easter holidays. I will share the arrangements for class 1W for the summer term with the parents soon.*

***Important dates next half term***
*Please note that the important dates of the Urdd's Eisteddfodau are indicated at the bottom of the Half Term Calendar.*
*We will include the dates of the Parents' Evenings here soon.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***08/01/2024***
www.ysgolgymraeg.cymru